

JOHN ap JOHN (1625? - 1697), Apostol y Crynwyr yng Nghymru

Enw: John ap John
Dyddiad geni: 1625?
Dyddiad marw: 1697
Priod: Katrin wraig John ap John
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: Apostol y Crynwyr yng Nghymru
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: William Ambrose Bebb

' Siôn ap Siôn ' y gelwir ef gan **Ellis Pugh** yn ei *Annerch i'r Cymru* (1721); ganwyd ym Mhencefn, trefgordd Coed Cristionydd, plwyf Rhiwabon. Yn nyddiau'r Werinlywodraeth ymunodd â'r ' Piwritaniaid ' a dyfod yn aelod o gynulleidfa **Morgan Llwyd** yng Ngwrecsam. Ar 21 Gorffennaf 1653 aeth gydag un arall, ar ran **Morgan Llwyd**, i Swarthmore, swydd Lancaster, i gyfarfod â George Fox, y Crynwyr. Llwyddodd Fox i argyhoeddi'r ddau, un dros dro, a'r llall, sef John ap John, am ei oes. Dychwelodd at **Forgan Llwyd** gydag 'adrodiaid' a throi ei gefn ar ei athro cyntaf.

O hyn allan, disgybl i George Fox, ac apostol y Crynwyr yng Nghymru ydoedd. Sefydlodd ei 'eglwys' gyntaf ym Mhen-y-cefn, a chenhadu'n ebrwydd yng Ngwrecsam, gan deithio oddi yno i lawr gyda'r gororau, i'r De - i Fynyw ac i Forgannwg, lle y carcharwyd ef fwy nag unwaith. Cymerodd daith gyffelyb yn 1657, yng nghwmni Fox, ac yn cyfeirio'n ôl i'r Gogledd drwy Gaerfyrddin, Aberystwyth, Machynlleth, Dolgellau, a Chaernarfon. Ar y teithiau hyn, ac eraill ar eu hôl, yr oedd yn araf ennill tir, yn enwedig ym Mynwy a Maldwyn a Meirionnydd, a denu disgyblion nid anenwog, megis **Richard Davies**, Cloddiau Cochion, a **Lloydiaid** Dolobran. O 1667 ymlaen, bu'n diogelu a threfnu, sefydlu cyfarfodydd misol, cyfarfodydd hanner-blynnyddol, ac, yn 1682, y cyfarfod blynnyddol. Erbyn 1686 yr oedd yn dechrau tycio peth ym Môn - ' truth hath got some entrance into Anglesey.' Ond, gan drymed yr erledigaeth, aeth rhai cannoedd o'r Crynwyr Cymreig i Pennsylvania o 1681 ymlaen, gan wanychu'r mudiad yma yn enbyd. Bu'n ddiwyd hyd y diwedd. Buasai ei wraig, Katrin, farw yn 1695. Symudodd yntau at ei ferch, gwraig John Mellor, ger Stafford, a marw yno ar 16 Tachwedd 1697.

Awdur

William Ambrose Bebb, (1895 - 1955)

Ffynonellau

Thomas Shankland yn *Cymru (O.M.E.)*, 1919

Penney, Norris, ac eraill yn *The Journal of the Friends' Historical Society*

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Siôn ap Siôn

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q18530096

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Bebb, W. A., (1953). JOHN ap JOHN (1625? - 1697), Apostol y Crynwyr yng Nghymru. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-JOHN-APJ-1625>

Griffiths

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government